
Jisc

Astudiaeth o anghenion a blaenoriaethau AI ar draws y sector trydyddol yng Nghymru

Crynodeb gweithredol



Medi 2026

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Crynodeb gweithredol

Mae sector addysg drydyddol Cymru ar bwynt hollbwysig yn ei drawsnewidiad digidol wrth i ddeallusrwydd artiffisial (AI) ddod yn gynyddol ymgorfforedig mewn addysgu, dysgu, asesu a gweithrediadau sefydliadol.

Mae tystiolaeth a gasglwyd ar draws AU, AB, darparwyr prentisiaethau ac ACL yn dangos uchelgais ac arbrofi cryf, gyda sefydliadau'n cydnabod potensial AI i wella effeithlonrwydd, gwella profiad y dysgwr a chefnogi addysg fwy personol. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio gweithdai, cyfweliadau a dadansoddiad o ymatebion penodol i Gymru i Arolwg Arweinyddiaeth Blynyddol 2025 Jisc ar draws AU, AB, prentisiaethau ac ACL.

Fodd bynnag, mae mabwysiadu yn parhau i fod yn dameidiog ac yn anwastad. Mae sefydliadau yn wynebu heriau strwythurol na ellir eu datrys yn annibynnol, gan gynnwys polisïau anghyson, gwaith wedi'i ddyblygu, beichiau caffael a chydymffurfiaeth sylweddol, dealltwriaeth gyfyngedig ar draws y sector o sut mae ymarferoldeb y Gymraeg yn gweithredu o fewn modelau AI, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch maint ac ansawdd gallu'r iaith Gymraeg, ac anghydraddoldebau digidol parhaus. Mae rhanddeiliaid ar draws pob sector yn mynegi awydd clir am ddull cenedlaethol cydlynol sy'n cryfhau cysondeb, yn lleihau dyblygu, ac yn sicrhau canlyniadau teg i ddysgwyr ledled Cymru.

Heriau traws-sector allweddol

- Anghysondeb polisi ar draws sefydliadau a chyrff dyfarnu, gan arwain at ddisgwyliadau aneglur i ddysgwyr a staff
- Llwyth gwaith gweinyddol trwm o werthuso offer, asesiadau risg, trwyddedu a negodi â gwerthwyr
- Anghydraddoldeb digidol, gan gynnwys mynediad amrywiol at ddyfeisiau, cysylltedd ac offer AI yn y Gymraeg
- Ansicrwydd cyfreithiol, moesegol a phreifatrwydd data, yn enwedig o amgylch systemau AI diogel yn erbyn systemau hyfforddi
- Disgwyliadau asesu wedi'u camgydgyfeirio a chanllawiau aneglur ar ddefnydd derbyniol o AI
- Llythrennedd AI anwastad ymhlith staff, dysgwyr, arweinwyr sefydliadol a mentoriaid gweithle sy'n cynorthwyo prentisiaid
- Amrywiad yn y parodrwydd i dderbyn risg a diwylliant sefydliadol o ran mabwysiadu AI, gan arwain at arloesi ar wahân ac ymdrech ddyblyg ar draws sefydliadau

Amrywiad traws-sector allweddol

- Sefydliadau AU sydd â'r angen mwyaf am gymorth i adolygu a chymeradwyo offer AI a datblygu achosion cadarn ar gyfer adnoddau
- Mae colegau AB yn cynnig cymorth tegwch digidol i ddysgwyr trwy gyfleusterau ar y safle, ond gall rhai dysgwyr AB wynebu heriau o hyd (gan gynnwys cysylltedd rhyngrwyd gwael) 'y tu allan i oriau', hynny yw, wrth astudio gartref
- Mae prentisiaid yn gweithredu mewn senario mwy cymhleth a all arwain at negeseuon cymysg oherwydd newidiadau yn argaeledd meddalwedd AI a/neu amlygiad mwy cyfyngedig i AI mewn amgylcheddau a reolir gan eu cyflogwr
- ACL sydd â'r canfyddiad isaf o'r angen am AI a'r buddsoddiad o amser mewn AI. Mae rhaglenni dan arweiniad awdurdodau lleol mewn perygl arbennig o syrthio ar ei hôl hi, gan mai'r ddarpariaeth hon fel arfer yw'r fwyaf ynysig

Er bod yr heriau a nodwyd yn sylweddol, nid ydynt yn bennaf yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf newydd ar raddfa fawr. Yn hytrach, maen nhw'n gofyn am eglurder polisi cydlynol, cydgyfeiriad disgwyliadau rheoleiddiol, buddsoddiad wedi'i dargedu yng ngallu'r gweithlu a chymorth strwythuredig ar gyfer mabwysiadu AI yn deg. Bydd cydlynu cynnar yn lleihau dyblygu ar draws sefydliadau, yn lleihau dryswch rheoleiddiol ac yn helpu i osgoi costau trwyddedu a chydymffurfio hirdymor sy'n cynyddu.

Darperir crynodebau sector llawnach yn yr atodiadau.

Prif argymhellion

Argymhellion Medr

- Datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer AI sy'n seiliedig ar egwyddorion i arwain polisi a sicrhau egwyddorion cyson ar draws y system drydyddol. (MR1)
- Buddsoddi mewn tegwch digidol a chlustnodi cyllid ar gyfer mentrau AI cynaliadwy. (MR2)
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod canllawiau cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg ar AI yn cael eu dehongli a'u rhoi mewn cyd-destun clir ar gyfer y sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru, gan gynnwys egluro gofynion cyfreithiol a disgwyliadau arfer da. (MR3)
- Cydlynu a chydgyfeirio hyfforddiant a ariennir eisoes yn gynnig cyson i'r sector trydyddol. (MR4)
- Annog arferion asesu sy'n berthnasol i fyd sy'n cael ei alluogi gan AI, mewn cydweithrediad â chyrff dyfarnu a rheoleiddwyr eraill. (MR5)

Argymhellion Jisc

- Datblygu modelau caffael a thrwyddedu ar y cyd ar gyfer Cymru. (JR1)
- Cefnogi ymgysylltiad gwerthwyr i sicrhau ymarferoldeb cyfartal yn y Gymraeg ar draws offer AI allweddol. (JR2)
- Gweithio gyda Medr a'i gynorthwyo i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer AI i arwain polisi a sicrhau egwyddorion cyson ar draws y system drydyddol. (JR3)
- Darparu fframweithiau i'r sector eu defnyddio wrth asesu offer newydd a chynnig canllawiau i'r sector ar gydraddoldeb AI yn y Gymraeg, dan arweiniad Jisc mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chyrff y sector. (JR4)
- Cynnull fforymau cenedlaethol i gydgyfeirio cyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru, Estyn a Medr ar asesu a chanllawiau. (JR5)

Argymhellion y corff dyfarnu

- Cydgyfeirio disgwyliadau a darparu canllawiau clir a chyson (yn y Saesneg ac yn y Gymraeg) ar ddefnyddio AI mewn gwaith cwrs, arholiadau a marcio; cynnwys staff yr EQA wrth hyrwyddo ac egluro gofynion cyrff dyfarnu. (AR1)
- Buddsoddi mewn amgylcheddau asesu digidol diogel a chefnogi modelau asesu dilys sy'n berthnasol i AI. (AR2)

Argymhellion y sector

- Cydweithio ar brosesau asesu, caffael a chydymffurfiaeth offer a rennir. (SR1)
- Asesu ymarferoldeb a phrofiad y defnyddiwr ynghylch y Gymraeg yn weithredol wrth werthuso offer AI a chymryd camau i liniaru unrhyw anghydraddoldeb anuniongyrchol sy'n deillio o berfformiad model Saesneg cryfach, yn enwedig o fewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. (SR2)
- Darparu datblygiad llythrennedd AI cymysg i staff a dysgwyr. (SR3)
- Cryfhau cymunedau ymarfer ac ochr yn ochr â chynlluniau peilot cydlynol ac ymarferion gwerthuso cydweithredol, gan alluogi sefydliadau i brofi offer ar y cyd yn hytrach na dyblygu asesiadau cyfochrog. Datblygu astudiaethau achos i ddangos sut mae'r dulliau hyn yn gweithio'n ymarferol ar draws gwahanol rolau. (SR4)

Casgliad

Mae gan Gymru gyfle strategol i fabwysiadu dull cenedlaethol, cydlynol o fabwysiadu AI ar draws addysg drydyddol. Trwy weithredu ar y cyd gydag egwyddorion clir, disgwyliadau asesu wedi'u cydgyfeirio, caffael ar y cyd, darpariaeth iaith Gymraeg gref a strategaeth llythrennedd AI genedlaethol, gall y sector symud o arbrofi tameidiog i drawsnewid cynaliadwy a chyfartal.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth hon, cysylltwch â Jisc.
jisc.ac.uk

Jisc
4 Portwall Lane
Bristol
BS1 6NB
0300 300 2212
help@jisc.ac.uk
jisc.ac.uk

Astudiaeth o anghenion a blaenoriaethau AI ar draws y sector trydyddol yng Nghymru